OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 3153 (Cy.281)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed - - - -	*9 Rhagfyr 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*10 Rhagfyr 2008*
Yn dod i rym - -	*1 Ionawr 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973 1973(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy gan adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**2**), a pharagraph 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**3**), a chyda chydsyniad y Trysorlys, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2008, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 1 Ionawr 2009.

Diwygiadau

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2008(**4**) fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 3, paragraph 1(dd), mewnosoder—

"(e) cynnal profion o dan bwynt 4(b)(i) o Ran D o Atodiad II i'r Rheoliad Ewropeaidd;

(f) cynnal profion o dan bwynt 4(b)(ii) o Ran D o Atodiad II i'r Rheoliad Ewropeaidd;

(ff) cynnal profion o dan bwynt 4(b)(iii) o Ran D o Atodiad II i'r Rheoliad Ewropeaidd(**5**)."

(3) Ar ôl rheoliad 3, paragraff 2(b), mewnosoder—

(**1**) 1973 p.51.
(**2**) 2006 p.32.
(**3**) 1972 p.68.
(**4**) O.S. 2008/2716 (Cy.245)
(**5**) Gosododd Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1237/2007 (OJ No L280, 24.10.2007, t.5) Ran D newydd yn Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 2160/2003.